08.10.2020

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Garry v Dylan: Pwy fydd pen-bandit Cwmderi?

Mae pethau wedi bod yn twymo rhwng dau o 'bad boys' Cwmderi - Garry Monk brenin y dihirod ers bron i ugain mlynedd a'r newydd-ddyfodiad ar Stryd Fawr Cwmderi, Dylan Ellis.

Dros yr wythnosau diwethaf yn **Pobol y Cwm** mae Dylan wedi darganfod bod Garry yn cael affêr gyda'i chwaer Jaclyn (Mali Harries). Ac er bod y berthynas yma yn achosi poen a chenfigen i Dylan - mae hefyd yn gweld cyfle i gael ei hunan allan o dwll anferth.

Yn yr wythnosau nesaf bydd y frwydr yma rhwng y ddau yn dod i ddiweddglo dramatig iawn ... Ond pwy fydd yr enillydd mewn *showdown* rhwng y ddau? Dyma gyfle i edrych ar gryfderau a gwendidau'r ddau ddihiryn cyn iddynt ddod wyneb yn wyneb ar nos Fawrth (Hydref 20) ar S4C.

**COFNOD TROSEDDOL**
**Garry:** Dyw Garry byth yn bell o '*dodgy dealings'* - gwerthu cig amheus, gwerthu handbags wedi eu dwyn, dwyn ceir a choed Nadolig, herwgipio, llwgrwobrwyo, osgoi talu treth a chael gwared ar arian brwnt. Ond mae Garry yn chwyrn yn erbyn cyffuriau ar ôl i Chris, mab Brandon ei frawd gael ei ladd gan ddeliwr cyffuriau.
**Dylan:** Cyrhaeddodd Dylan y gyfres yn arwr ar ôl iddo achub Kelly rhag cael ei lladd gan ei gŵr Ed. Dros amser 'da ni wedi gweld bod sawl cysgod ar gydwybod Dylan. Mae'r byd cyffuriau mae wedi llithro iddo yn beryg iawn ac mae allan o'i ddyfnder. Mae wedi bod yn gyfrifol am sawl marwolaeth amheus er mai damweiniol ydi'r marwolaethau hyd yma.

**DAU DDYN SY'N GOLYGU BUSNES**
**Garry:** Dros y blynyddoedd diweddar mae Garry wedi ceisio symud i ffwrdd o'i ddelwedd fel *gangster* lleol i fod yn ddyn busnes parchus. Mae'n berchen ar garej Moduron Monk a landlord y Deri Arms. Ysgol brofiad sydd wedi galluogi i Garry gael busnes gonest a sawl busnes *off the record*.
**Dylan**: Mae Dylan yn hoffi dangos ei hunan fel dyn busnes llwyddiannus - mae'n berchen ar Y Tapas ac eiddo yn Abertawe. Ond ffrynt i'r busnes cyffuriau ydy'r Tapas. Pan mae Dylan yn cael dêl dda mae llawer o bres yn ei boced, pan mae'n colli - mae'n colli popeth. Mae e wedi ffraeo gyda'r *drug lords* ar hyn o bryd ac mewn dyledion at ei glustiau.

**TEULU**
**Garry**: Mae teulu yn golygu popeth i Garry. Mae'n dad i Gwern a Seren a wirioneddol yn eu caru gan na gafodd fagwraeth dda iawn ei hun.

**Dylan**: Dydyn ni ddim yn gwybod llawer am fagwraeth Dyl ond mae e'n agos iawn at ei chwaer fawr. Mae teulu'r Parris yn golygu poeth iddo, pa mor bell mae'n fodlon mynd i ddiogelu ei uned? Heb deulu, heb ddim.

**STEIL**

**Garry:** Mae pob cowboi yn gwisgo du... ond yn y blynyddoedd diwethaf mae lliw wedi cyrraedd wardrob Garry yn ogystal â slipers!

**Dylan**: Pan mae steil yn y cwestiwn, Dylan sy'n ennill heb os gyda'i siwtiau sharp a'i wisg hamdden *designer.*

**FFITRWYDD CORFFOROL**

**Garry**: Cafodd Garry bach o greisis wrth iddo gyrraedd ei hanner canrif yn ddiweddar ond ers iddo ddechrau ei affêr gyda Jaclyn, mae e wedi dechrau rhedeg a thalu mwy o sylw i'w ffitrwydd. Ond fel dyn drwg mae Garry yn llawer mwy craff a chynllwyngar y dyddiau yma - fe gaiff o rywun arall i ddefnyddio'i ddyrnau. Manipiwleiddio a cham-drin emosiynol a seicolegol ydi ei gryfderau erbyn hyn.

**Dylan**: Mae Dylan yn ymateb gyda'i ddyrnau - fel yr oedd Garry ugain mlynedd nol. Mae fel plentyn bach yn gwylltio pan nad yw'n cael ei ffordd ei hun. Heb os mae'n gallu rhoi o'i orau mewn ffeit ... ond mae wedi cael sawl crasfa hefyd.

**CRYFDERAU**

**Garry**: Mae Garry'n ddeallus iawn - ac yn ddewin pan mae taro dêl dodji yn y cwestiwn. Mae'n dda yn deall pobl, adnabod eu gwendidau a'u defnyddio er ei lles ei hunan. Mae gan Garry dymer ond erbyn nawr mae e wedi llwyddo i'w reoli a defnyddio ei ben yn lle ei ddyrnau i ddatrys problem - gan amla'! Mae'n brofiadol ac wedi hen arfer delio gyda chymeriadau llawer gwaeth na Dylan.

**Dylan**: Mae'n ifanc, golygus ac mae ganddo ei chwaer fawr yn ei gornel. Er gwaetha'r ffaith fod Jaclyn wedi cael llond bol o'i antics - mae hi yna bob tro iddo.

**GWENDIDAU**

**Garry**: Er bod Garry'n ymddwyn fel dyn caled, ar y tu fewn mae'n fregus a byth yn gadael i bethau fynd os oes rhywun wedi ei bechu neu ei amharchu. Gwendid Garry y tro hwn ydi fod ei galon wedi mynd yn drech na'i ben a bydd hynny yn arwain at drafferthion.

**Dylan**: Ego, delwedd a'r angen i gael ei garu sy'n gyrru Dylan - mae e wedi cael sawl cyfle i gamu ffwrdd o'i fywyd amheus ond mae'n fodlon aberthu popeth er mwyn gwneud arian i gynnal ei ffordd o fyw.

Peidiwch â cholli **Pobol y Cwm** ar S4C ar nos Fawrth, 20 Hydref i weld pwy fydd yn ennill yn y *showdown* rhwng Garry Monk a Dylan Ellis.

**Pobol y Cwm**
**Nos Fawrth 20 Hydref a Nos Iau 22 Hydref, 8.00, S4C**
**Omnibws Nos Sul 25 Hydref, 6.25, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad BBC Cymru ar gyfer S4C**

08.10.2020
Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Garry v Dylan: who will be Cwmderi's biggest bad boy?

Things have been heating up between two of Cwmderi's bad boys – Garry Monk who has ruled the roost for nearly 20 years and newcomer to the Cwm, Dylan Ellis.

Over the last few weeks in **Pobol y Cwm**, Dylan has discovered that Garry has been having an affair with his sister Jaclyn (Mali Harries). And although their relationship makes him jealous and angry – he also sees it as a chance to get himself out of trouble.

In the next few weeks, the battle between the two will come to a very dramatic end...but who will the winner be in a showdown between the two? Here we weigh up the characters' strengths and weaknesses before they square up to each other on Tuesday, 20 October on S4C.

**CRIMINAL RECORD**

**Garry:** Garry is never far from shady dealings be it selling dodgy meat and stolen handbags, stealing cars and Christmas trees, kidnapping, blackmail, money laundering and tax avoidance. But Garry is fiercely anti-drugs after his brother Brandon's son died at the hands of a drug dealer.

**Dylan:** Dylan arrived in the series as a bit of a hero, saving Kelly from being killed by her husband Ed. Over time we came to see that there were several shadows on Dylan's conscience. He has descended into the dangerous world of drug-dealing and he is out of his depth. He has been responsible for several suspicious deaths, although so far, these have been accidental.

**TWO MEN WHO MEAN BUSINESS**

**Garry:** Garry has tried to move away from his image as a local gangster and has re-invented himself as a respectable businessman. He owns Moduron Monk garage and is landlord of the Deri Arms. Life experience has allowed Garry to run an honest business and several off the record enterprises!

**Dylan**: Dylan likes to present himself as a successful businessman – he owns Tapas and property in Swansea. But Y Tapas is a front for his drug dealing. When Dylan strikes a good deal, he has a lot of money in his pocket but when he loses, he loses big. At the moment he has fallen out with the drug lords and is up to his neck in debt.

**FAMILY GUYS?**

**Garry**: Family means everything to Garry. He is a good father to Gwern and Seren. He loves them and is determined to give them a happy childhood because he had such a tough bringing himself.

**Dylan**: We don't know too much about Dyl's upbringing, but we know that he is very close to his big sister Jaclyn. The Parri family mean everything to him – how far is he prepared to go to keep the family together? Life is nothing without family.

**STYLE**
**Garry:** Every cowboy wears black … but in recent years Garry has allowed a bit of colour into his wardrobe – as well as the slippers!
**Dylan**: When it comes to style, Dylan is the clear winner with his sharp suits and designer leisurewear.

**PHYSICAL FITNESS**
**Garry**: Garry had a bit of a crisis when he hit 50 recently but since starting his affair with Jaclyn, he has started running and paid more attention to his health and fitness. But as a bad guy Garry is a lot craftier and more devious these days – he will get somebody else to do his dirty work for him. Manipulation and mind games are his strengths now.
**Dylan**: Dylan reacts with his fists – like Garry did 20 years ago. He is like a child who flies into a temper when he doesn't get his own way. Without a doubt, he can hold his own in a fight – but he's taken a few beatings too.

**STRENGTHS**
**Garry**: Garry is very intelligent – and he's an expert at striking a dodgy deal. He's good at understanding what makes people tick, identifying their weaknesses and using them to his own benefit. Garry has a temper but has learned to control it and uses his head rather than his fists to solve a problem – well, most of the time! He's experienced and is used to dealing with people a lot worse than Dylan.
**Dylan**: Dylan is young, handsome and charming and he has his sister in his corner. Although Jaclyn has had enough of his antics, she is always there for him.

**WEAKNESSES**
**Garry**: Although Garry behaves like a hard man, he is quite vulnerable on the inside. If someone crosses him or disrespects him, he will never let it go. Garry's weakness at the moment is that his heart is ruling his head, and this will lead to all sorts of problems.
**Dylan**: Ego, image and the need to be loved are what drive Dylan. He has had several opportunities to step away from his life of crime but he's willing to do whatever it takes to make enough money to support his glamorous lifestyle.

Don't miss **Pobol y Cwm** on S4C on Tuesday, 20 October to see who will come out on top in the showdown between Garry Monk and Dylan Ellis.

**Pobol y Cwm**
**Tuesday 20 October 8.00, S4C**
**Omnibus Sunday 25 October, 6.25, S4C**
**English subtitles**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A BBC Cymru production for S4C**